

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon  
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

#### Cyflwyno Cyffuriau Newydd yng Nghymru The Introduction of New Drugs in Wales

**Q9 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on the introduction of new drugs in Wales? OAQ0617(HSS)

**C9 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwyno cyffuriau newydd yng Nghymru? OAQ0617(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons):** The licensing of new drugs is not a devolved issue. It is a matter for the Medicines and Healthcare Products Regulatory Agency, which is a UK-wide organisation.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Nid yw trwyddedu cyffuriau newydd yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Mater ydyw i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, sy'n gorff ar gyfer y DU gyfan.

#### Ysbytai Cymunedol Community Hospitals

**Q10 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on community hospitals? OAQ0597(HSS)

**C10 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ysbytai cymunedol? OAQ0597(HSS)

**Brian Gibbons:** 'Designed for Life' explains the important future role of community hospitals in Wales. It identifies six new/refurbished community hospitals, of which work has already started on four. Their role will include developments in diagnostic treatments and new models of care that ensure that treatment takes place near or in the home.

**Brian Gibbons:** Mae 'Cynllun Oes' yn egluro'r swyddogaeth bwysig fydd gan ysbytai cymuned yn y dyfodol. Mae'n nodi chwe ysbyty cymuned sydd i'w codi o'r newydd neu sydd i'w hailwampio, ac mae gwaith eisoes wedi dechrau ar bedwar ohonynt. Bydd eu swyddogaeth yn cynnwys datblygiadau ym maes triniaethau diagnostig a modelau newydd ar gyfer gofal sy'n sicrhau

bod triniaeth ar gael yn lleol neu yn y cartref.

### **Gwasanaethau Sgrinio yng Nghymru Screening Services in Wales**

**Q11 Janice Gregory:** Will the Minister make a statement on screening services in Wales? OAQ0584(HSS)

**C11 Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau sgrinio yng Nghymru? OAQ0584(HSS)

**Brian Gibbons:** The UK National Screening Committee advises the Welsh Assembly Government and UK Government departments on all aspects of screening policy. Any decisions on screening programmes are taken in the light of recommendations of the NSC.

**Brian Gibbons:** Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn rhoi cyngor i adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac adrannau Llywodraeth y DU ar bob agwedd ar bolisi sgrinio. Caiff unrhyw benderfyniadau ar raglenni sgrinio eu gwneud ar sail argymhellion y pwyllgor hwn.

### **Gwella Gwasanaethau i Bobl Ifanc gydag ME Improving Services for Young People with ME**

**Q12 Lorraine Barrett:** What action is the Welsh Assembly Government taking to improve services for young people with ME? OAQ0630(HSS)

**C12 Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau i bobl ifanc gydag ME? OAQ0630 (HSS)

**Brian Gibbons:** Conditions such as myalgic encephalomyelitis are being addressed as part of our work in managing chronic diseases. We are supporting the National Collaborating Centre for Primary Care, commissioned by the National Institute for Health and Clinical Excellence, to develop clinical guidelines to aid with diagnosis and management.

**Brian Gibbons:** Yr ydym yn rhoi sylw i afiechydon megis encephalomyelitis myalgig fel rhan o'n gwaith yn ymwneud â rheoli afiechydon cronig. Yr ydym yn cynorthwyo'r ganolfan gydweithredol ar gyfer gofal sylfaenol, a gaiff ei chomisiynu gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, i ddatblygu canllawiau i wella diagnosis a dulliau rheoli.

### **Dyfodol Niwrolawdriniaeth yn Abertawe The Future of Neurosurgery in Swansea**

**Q13 Peter Black:** Will the Minister make a statement on the future of neurosurgery in Swansea? OAQ0628(HSS)

**C13 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol niwrolawdriniaeth yn Abertawe? OAQ0628(HSS)

**Brian Gibbons:** No decision has been taken on the future location of neurosurgical services. The primary objective is to ensure south Wales has high-quality, safe, sustainable neurosurgical services. Work involving both main centres is on-going following the final report of the neurosciences review. Any public consultation will follow the recommendations being presented to the National Commissioning Advisory Board.

**Brian Gibbons:** Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch lleoliad gwasanaethau niwrolawdriniaeth yn y dyfodol. Y prif nod yw sicrhau bod gan dde Cymru wasanaethau niwrolawdriniaeth diogel, cynaliadwy ac o safon. Mae gwaith ar y gweill yn ymwneud â'r ddwy brif ganolfan yn dilyn yr adroddiad terfynol ar yr adolygiad o niwrolawdriniaeth. Bydd unrhyw broses o ymgynghori â'r cyhoedd yn dilyn yr argymhellion a gyflwynir gerbron y Bwrdd Comisiynu Ymgynghorol Cenedlaethol.

**Gwasanaethau Iechyd a Ddarperir yn y Canolbarth a'r Gorllewin  
The Provision of Health Services in Mid and West Wales**

**Q14 Helen Mary Jones:** Will the Minister make a statement on the provision of health services in mid and west Wales? OAQ0598(HSS)

**Brian Gibbons:** 'Designed for Life' includes action to improve health, social care and wellbeing for all, and transform services. It will focus in the first three years on improving coronary heart disease, cancer, mental health, services for older people and children, and services for those with chronic diseases and awaiting elective treatment.

**C14 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gwasanaethau iechyd a ddarperir yn y canolbarth a'r gorllewin? OAQ0598(HSS)

**Brian Gibbons:** Mae 'Cynllun Oes' yn cynnwys camau i wella iechyd, gofal cymdeithasol a lles i bawb, ac i weddnewid gwasanaethau. Yn ystod y tair blynedd cyntaf, bydd yn canolbwyntio ar wella clefyd coronaidd y galon, canser, iechyd meddwl, gwasanaethau i bobl hŷn a phlant, a gwasanaethau i'r rheini ag afiechydon cronig sy'n aros am driniaeth ddewisol.

**Dyfodol Technoleg Feddygol wrth Drin Cleifion yng Nghymru  
The Future of Medical Technology in the Treatment of Patients in Wales**

**Q15 Val Lloyd:** Will the Minister make a statement on the future of medical technology in the treatment of patients in Wales? OAQ0614(HSS)

**Brian Gibbons:** Informing Healthcare is the national programme in Wales to improve healthcare delivery through providing better access to information technology and knowledge. It is one of the critical enabling activities supporting 'Designed for Life', the future national strategy for healthcare delivery in Wales over the next 10 years.

**C15 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol technoleg feddygol wrth drin cleifion yng Nghymru? OAQ0614(HSS)

**Brian Gibbons:** Hysbysu Gofal Iechyd yw'r rhaglen genedlaethol yng Nghymru i wella gofal iechyd drwy sicrhau ei bod yn haws manteisio ar wybodaeth a thechnoleg gwybodaeth. Dyma un o weithgareddau galluogi hanfodol 'Cynllun Oes', y strategaeth genedlaethol i gyflwyno gofal iechyd yng Nghymru yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon  
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport**

**Cefnogaeth i Amgueddfeydd Bychain yng Nghymru  
Support for Small Museums in Wales**

**Q11 Lynne Neagle:** Will the Minister make a statement on Assembly Government support for small museums in Wales? OAQ0585(CWS)

**The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh):** Small museums make a valuable contribution to the preservation of Welsh heritage. Through CyMAL: Museums Archives and Libraries Wales, the Assembly Government provides specialist advice, free training and financial

**C11 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i amgueddfeydd bychain yng Nghymru? OAQ0585(CWS)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae amgueddfeydd bychain yn gwneud cyfraniad gwerthfawr o ran diogelu treftadaeth Cymru. Drwy CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig cyngor arbenigol,

support. Registered small museums are eligible to apply to CyMAL's museums grant schemes. In 2005-06, a total allocation of £400,000 is available.

hyfforddiant am ddim a chymorth ariannol. Gall amgueddfeydd bychain cofrestredig wneud cais am grant o dan gynlluniau amgueddfeydd CyMAL. Yn ystod 2005-06, bydd cyfanswm o £400,000 ar gael i'w ddyrannu.

### **Gwariant ar y Celfyddydau Arts Spending**

**C12 Ieuan Wyn Jones:** Pryd y cyfarfu'r Gweinidog ddiwethaf gyda chadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru i drafod blaenoriaethau ar gyfer gwariant ar y celfyddydau? OAQ0535(CWS)

**Q12 Ieuan Wyn Jones:** When did the Minister last meet the chairman of the Arts Council of Wales to discuss priorities for arts spending? OAQ0535(CWS)

**Alun Pugh:** Chwe diwrnod yn ôl.

**Alun Pugh:** Six days ago.

### **Ariannu Dawns The Funding of Dance**

**Q13 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on the funding of dance? OAQ0571(CWS)

**C13 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ariannu dawns? OAQ0571(CWS)

**Alun Pugh:** The Culture, Welsh Language and Sport Committee review of dance was debated in Plenary yesterday. I will be making my oral response to that debate on 7 March 2006.

**Alun Pugh:** Cafwyd dadl ar yr adolygiad o ddawns gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn y Cyfarfod Llawn ddoe. Byddaf yn rhoi fy ymateb llafar i'r ddadl honno ar 7 Mawrth 2006.

### **Plant o Gymunedau Difreintiedig sy'n Cyfrannu at Weithgareddau Diwylliannol Participation of Children from Deprived Communities in Cultural Activities**

**Q14 Huw Lewis:** What steps is the Minister taking to increase participation of children from deprived communities in cultural activities? OAQ0584(CWS)

**C14 Huw Lewis:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu nifer y plant o gymunedau difreintiedig sy'n cyfrannu at weithgareddau diwylliannol? OAQ0584(CWS)

**Alun Pugh:** We provided over £2.5 million in grants last year to increase participation of children and young people in deprived communities, but there is still a great deal of progress to be made.

**Alun Pugh:** Y llynedd, rhoddwyd grantiau o dros £2.5 miliwn i annog rhagor o blant a phobl ifanc o gymunedau difreintiedig i gyfrannu, ond mae llawer i'w wneud eto.

### **Llyfrgelloedd yn Sir y Fflint Libraries in Flintshire**

**Q15 Carl Sargeant:** Will the Minister make a statement on library usage in Flintshire? OAQ0575(CWS)

**C15 Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o lyfrgelloedd yn sir y Fflint? OAQ0575(CWS)

**Alun Pugh:** I am pleased to note that the annual statistics show an increase in library

**Alun Pugh:** Yr wyf yn falch o nodi bod yr ystadegau blynyddol yn dangos cynnydd yn

visitors in Flintshire from 521,174 in 2002-03 to 639,089 in 2003-04. This is a 22 per cent increase. Figures for 2004-05 have not yet been published.

nifer yr ymwelwyr â llyfrgelloedd sir y Fflint, o 521,174 yn ystod 2002-03 i 639,089 yn ystod 2003-04. Dyma gynnydd o 22 y cant. Nid yw'r ffigyrau ar gyfer 2004-05 wedi'u cyhoeddi eto.